20th March 2019 **Llannon Community Council**

Council Meeting

Minute no. 307 – Members Present

Councillors:

P C Edwards
N Holman
D Jones
P Williams
L Williams
E James
L M Davies

Chairperson Councillor E James presided over the meeting

Also present: The Clerk and Community Development Officer/Responsible Finance Officer

Minute no. 308 – Apologies for Absence
Apologies for absence were received from Councillors M Jones, E Dole, G Jones and D Snaith.

Minute no. 309 – Declarations of Interest
A declaration of interest was received from Councillor D Jones as Carmarthenshire County Councillor.

Minute no. 310 – Signing of the Minutes – 20th February 2019 Council Meeting
Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 311– Matters Arising for Information
Minute no. 286 Llannon Park
The Clerk reported that he is awaiting a response from Coastal Housing Group regarding the Section 106 payments and the group's commitment to install the play equipment at nil cost. **Resolved** to request the Clerk to chase up the position with the developer in order to enable progress with this matter.

Minute no. 286 - Personnel Committee
The Clerk reported that he had consulted with the Chairman regarding this matter and it was agreed that it would be appropriate to convene a Personnel Committee early in the new financial year whereupon the year-end financial figures will be available.

Mawrth 20fed 2019 Cyngor Cymuned Llannon

Cyfarfod y Cyngor

Cofnod rhif 307 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

P C Edwards
N Holman
D Jones
P Williams
L Williams
E James
L M Davies

Yr Cadeirydd, y Cynghorydd E James, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod

Hefyd yn bresennol: Y Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)/ Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC**).**

Cofnod rhif 308 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Derbyniwyd ymddiheuraiadu am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr M Jones, E Dole, G Jones a D Snaith.

Cofnod rhif 309 – Datgan Buddiant
Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd D Jones gan ei bod yn Gynghorydd Sir.

Cofnod rhif 310 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor – Chwefror 20fed 2018
Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 311– Materion yn Codi er Gwybodaeth
Cofnod rhif 286 – Parc Llannon
Dywedodd y Clerc ei fod yn aros am ymateb oddiwrth y Coastal Housing Group ynghylch taliadau Adran 106, ac ymrwymiad y grŵp i osod yr offer chwarae yn ddi-dâl.
Penderfynwyd gofyn i'r Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r datblygwr er mwyn i ni allu bwrw ymlaen gyda'r mater hwn.

Cofnod rhif 286 – Pwyllgor Personél
Dywedodd y Clerc ei fod wedi ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch y mater hwn ac fe gytunwyd y byddai'n addas galw cyfarfod o'r Pwyllgor Personél yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd pan fydd yr holl fanylion ariannol diwedd-blwyddyn ar gael.

Minute no. 286 - Defibrillators
It was noted that the current appointed electrician for this work has not managed to complete the work. In the event that there is no progress, it was **resolved** to proceed with an alternative electrician as appropriate.

Minute no. 312 – Councillor P Williams
Councillor P Williams entered the meeting.

Minute no. 313 – Sarah McColl-Dorion
The Council received a request from Sarah to consider providing an advance against her salary in the sum of £2,000 repayable over 4 months. **Resolved to** approve this request.

Minute no. 314 – Minutes of the Working Group to consider the Wellbeing of Future Generations Annual Report
Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

As the current CDO has been in post for only a part of the year, it was **resolved** that Christine Davies is appointed to assist with the development of the Annual Report as required by the County Council.

Minute no. 315 – Finance Reports
The RFO apologised for the lack of finance reports that were available at the meeting which was due to a software problem with the Rialtas software system.

Members of the Council received and considered the following previously circulated finance reports:

- Bank Reconciliation.
- Report on invoices for payment.
- Report on invoices already paid.

It was **resolved** to accept the reports.

Cllr D Jones left the room whilst the following reports were presented.

Minute no. 316 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
Reason: Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

Cofnod rhif 286 - Diffibrilwyr
Nodwyd bod y trydanwr a apwyntiwyd i wneud y gwaith hwn heb lwyddo i gwblhau'r gwaith. Os na fydd cynnydd yn y mater, **penderfynwyd** dod o hyd i drydanwr arall fel y bo'n addas.

Cofnod rhif 312 – y Cynghorydd P Williams
Cyrhaeddodd y Cynghorydd P Williams y cyfarfod.

Cofnod rhif 313 – Sarah McColl-Dorion
Roedd y Cyngor wedi derbyn cais oddiwrth Sarah i ystyried rhoi benthyciad o £2,000 iddi hi, gyda'r swm i'w ad-dalu ganddi dros gyfnod o 4 mis. **Penderfynwyd** cydsynio â'r cais hwn.

Cofnod rhif 314 – Cofnodion y Gweithgor i ystyried Adroddiad Blynyddol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99
Gan fod y SDC presennol wedi bod yn ei swydd am ran yn unig o'r flwyddyn, **penderfynwyd** y dylid penodi Christine Davies i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r Adroddiad Blynyddol sydd ei angen gan y Cyngor Sir.

Cofnod rhif 315 – Adroddiadau Ariannol
Roedd y SCC wedi ymddiheurio am ddiffyg argaeledd yr adroddiadau ariannol yn y cyfarfod; achoswyd hyn gan broblem feddalwedd ar y system feddalwedd Rialtas. Roedd Aelodau'r Cyngor wedi derbyn ac ystyried yr adroddiadau ariannol a ddosbarthwyd yn flaenorol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau sydd i'w talu
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau a dalwyd eisoes

Penderfynwyd derbyn yr adroddiadau.

Gadawodd y Cynghorydd D Jones yr ystafell tra roedd yr adroddiadau canlynol yn cael eu trafod:

Cofnod rhif 316 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref a) Datblygiad Arfaethedig
Penderfynwyd bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.
Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

(a) Applications

Resolved that the following applications be noted onto the minutes.

S/38486 Erection of a storage building on land used for agricultural purposed at Gelli Ganol Farm, Llannon. Mr Nigel Hooper.

S/38500 Proposed extension and internal alternation to existing dwelling (resubmission of S/37973 withdrawn on 9.1.19) at Waun Wen, Carmarthen Rd, Cross Hands. Debra Morgan.

S/38564 Extension of existing storage building to convert into a place of worship, demolition of former Auction House, upgrading existing car parking area and drainage for proposed use at 2 Carmarthen Rd, Cross Hands. Mark Thorburn.

S/38579 Proposed double storey side extension at 20 Heol Nant Llannon. Matthew Thomas.

.

(b) Decision Notices Granted

None received.

(c) Decision Notices Refused

None received.

(d) Decision Notices Appealed

None received.

Minute no. 317 – Standing Orders

Members considered the previously circulated copy of the Model Standing Orders. It was **resolved** to approve in principle the standing orders as amended subject to a further review by the Council in due course and to change the word "Chairman" to "Chairperson" within the text.

Minute no. 318– Terms of Reference

The Council received a report on an updated term of reference and delegated authority for the Council sub-committees. After a detailed discussion, it was **resolved** to approve the recommendations for the following committees:

- Finance & Audit Committee
- Personnel/Appeals Committee
- Performance Review Panel

and to include the additional terms of reference for the Hall Management Committee:

- Responsible for an overview of events organised at Tumble Hall
- Monitor the financial viability of activities organised by the Council
- Review and monitor the type and volume of community events held at the hall
- Monitor the management of developments and maintenance of the hall
- Monitor and review the Marketing Manager's work programme

(a) Ceisiadau

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion

S/38486 Adeiladu storfa ar dir a ddefnyddir at ddiebenion amaethyddol yn Fferm Gelli Ganol, Llannon. Mr Nigel Hooper.

S/38500 Estyniad a newidiadau mewnol arfaethedig i'r tŷ annedd presennol (ailgyflwyniad o S/37973 a dynnwyd yn ôl ar 9.1.19) yn Waun Wen, Heol Caerfyrddin, Cross Hands. Debra Morgan.

S/38564 Estyniad i'r storfa bresennol er mwyn ei droi'n addoldy, dymchwel y cyn Dŷ Ocsiwn, uwchraddio'r maes parcio a gwaith draenio ar gyfer y defnydd arfaethedig yn 2 Heol Caerfyrddin, Cross Hands. Mark Thorburn.

S/38579 Estyniad dau lawr arfaethedig i'r ystlyslun yn 20 Heol Nant Llannon. Matthew Thomas.

.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

Cofnod rhif 317 – Rheolau Sefydlog

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y Rheolau Sefydlog Model a ddosbarthwyd yn flaenorol. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r rheolau sefydlog mewn egwyddor fel y'u gwellwyd, yn amodol ar bod y Cyngor yn cynnal adolygiad pellach gyda hyn, ac yn newid y gair "*Chairman*" i "*Chairperson*" yn y testun Saesneg.

Cofnod rhif 318 – Cylch Gorchwyl

Roedd y Cyngor wedi derbyn adroddiad ynghlyn â chylch gorchwyl diwygiedig, a rhoi awdurdod dirprwyedig i is-bwyllgorau'r Cyngor. Wedi trafodaeth fanwl, **penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion ar gyfer y pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Cyllid ac Archwilio
- Pwyllgor Personél/ Apeliadau
- Panel Adolygu Perfformiad

ac i gynnwys y cylch gorchwyl ychwanegol ar gyfer Pwyllgor Rheoli'r Neuadd:

- Cyfrifoldeb am drosolwg o'r digwyddiadau a gynhelir yn Neuadd y Tymbl
- Monitro hyfywedd ariannol y gweithgareddau a drefnir gan y Cyngor
- Adolygu a monitro'r math a'r maint o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir yn y neuadd
- Monitro rheolaeth datblygiadau a chynnal a chadw y neuadd
- Monitro ac adolygu rhaglen waith y Rheolwr Marchnata

Minute no. 319 – CDO Report

Members of the Council received the previously circulated CDO report and received an overview of matters from the CDO. This was noted.

Minute no. 320 – Operation Manager's Report

Members of the Council received the previously circulated Operation Manager's report. There was a discussion on the following matters:

- There is a need to review the charges for the shows held at Tumble Hall and also the number of acts on each night to ensure that we achieve a reasonable profit for each event.
- It was suggested that it may be appropriate to review the number of tables allocated for food during shows to ensure that there is sufficient space for people to walk between tables. **Resolved** to refer this matter to the Hall Committee.
- It was **resolved** to proceed with the purchase of the proposed selection of furniture and equipment as contained within the report.
- The committee received quotations for the replacement of the mechanism for the curtain tracks in the hall. It was **resolved** to accept the lowest quotation in the sum of £5066.58.

Minute no. 321 – County Councillor Reports

Councillor D Jones provided a report on the following matters:

- The Mobile Library Service is going to be changed to include serving Tumble car park on Tuesdays at 1.00 pm. It may mean the service in Llannon will be cancelled.
- It was noted that the main Tumble car park will not be subject to parking charges.

Minute no. 322 – Facebook Page

Members expressed concern that the Council's community facebook site is not being populated with all Council activities. **Resolved** to instruct the Marketing Manager to ensure that all relevant information is placed on the Community Council Facebook page and that all event posters are placed on the Council noticeboards.

Minute no. 323 – Standing Orders

It was agreed to suspend standing orders in order to enable the continuation of business beyond 9pm.

Minute no. 324 – Financial Assistance

It was **resolved** to offer the following organisations a donation in accordance with its powers under Section 137 of the LGA 1972, which in the opinion of the Council is in the interests of the area or its inhabitants and will benefit them in a manner commensurate with the expenditure:

Cruse	£50.00
Gwyl Cerdd Dant	£100.00

Cofnod rhif 319 – Adroddiad y SDC
Derbyniodd Aelodau'r Cyngor drosolwg gan y SDC o'i hadroddiad, a ddosbarthywd yn flaenorol, am faterion datblygu cymunedol. Nodwyd yr adroddiad.

Cofnod rhif 320 – Adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau

Derbyniodd Aelodau'r Cyngor drosolwg o'i adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, gan y Rheolwr Gweithrediadau. Bu trafodaeth ynghylch y materion canlynol:

- Mae angen adolygu'r tâl a godir am y sioeau a gynhelir yn Neuadd y Tymbl, ac hefyd y nifer o actau sy'n ymddangos bob nos i sicrhau ein bod ni'n derbyn elw rhesymol o bob gweithgaredd.
- Hefyd, fe awgrymwyd efallai ei bod hi'n addas adolygu'r nifer o fordydd sy'n cael eu clustnodi am fwyd yn ystod y sioeau er mwyn sicrhau bod gan bobl digon o le i gerdded rhwng y bordydd. **Penderfynwyd** cyfeirio'r mater hwn at sylw Pwyllgor y Neuadd.
- **Penderfynwyd** bwrw ymlaen i brynu'r ystod o gelfi ac offer yn unol â'r hyn a restrwyd yn yr adroddiad.
- Roedd y pwyllgor wedi derbyn dyfynbrisiau i ailosod mecanwaith y traciau i lenni'r neuadd. **Penderfynwyd** derbyn y dyfynbris isaf, yn y swm o £5066.58.

Cofnod rhif 321 – Adroddiadau y Cynghorwyr Sir
Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd D Jones ynghylch y materion canlynol:

- Bydd trefniadau'r Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol yn newid, a bydd yn mynychu maes parcio'r Tymbl ar ddydd Mawrth am 1.00yh.Efallai y bydd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn Llannon yn diflannu.
- Nodwyd na fydd angen talu am barcio ym mhrif faes parcio'r Tymbl.

Cofnod rhif 322 – Tudalen Facebook
Roedd yr aelodau wedi myegi eu consyrn nad oedd holl weithgareddau'r Cyngor yn ymddangos ar safle gymunedol Facebook y Cyngor. **Penderfynwyd** cyfarwyddo'r Rheolwr Gweithrediadau i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned, a bod pob poster yn hysbysebu digwyddiadau yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau'r Cyngor.

Cofnod rhif 323 – Rheolau Sefydlog
Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh.

Cofnod rhif 324 – Cais am Gymorth Ariannol
Penderfynwyd cynnig rhodd i'r sefydliadau canlynol yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a fydd, ym marn y Cyngor, o les i'r ardal a'i thrigolion mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Cruse	£50.00
Gŵyl Cerdd Dant	£100.00

Minute no. 325- Carmarthenshire County Council (Dog Control) Public Spaces Protection Order 2016

Resolved to note the proposal of the County Council to extend the above order for a further 3 years.

Minute no. 326- MEP Jill Evans - Nuclear Waste Dump in Wales

The Council received correspondence from Jill Evans requesting the Council to pass a motion stating that the community will not volunteer to host an underground nuclear waste dump. **Resolved** to approve the above motion unanimously.

Minute no. 327- Bridleway Claim registered near Llwynteg, Llannon

Cllr D Jones declared an interest and took no part in the discussion on this item.

The Council received correspondence from Carmarthenshire CC regarding an application to register a Public Bridleway in Llannon. Members of the Council were of the view that it would be inappropriate to register a bridleway along the proposed route and the Clerk was instructed to respond to the County Council objecting to this application.

Minute no. 328- Mrs M Squires - Request to place a memorial seat in Cemetery

The Council received a request from Mrs Squires for consent to erect a memorial seat at Mynydd Mawr Cemetery in memory of her late husband Morton Squires. **Resolved** to agree to a chair being placed in Mynydd Mawr Cemetery.

Minute no. 329 – Gravestone Design - Football Jersey

The Council received a request for authority to erect a gravestone at Mynydd Mawr cemetery shaped as a football jersey. Members were of the opinion that the gravestone should match with the current design guide and requested that the Chairman meet up with the memorial mason to scrutinise a more detailed picture before confirming approval of the design.

Minute no. 330 –Tumble Hall

a) Licensable Activity

Resolved to note that the following licensable activities were ratified by the Council.
Reason – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003)

19th March	Social Evening
22nd March	Country & Western
2nd April	Social evening
4th April	Curry & Quiz night
6th April	Party
13th March	Jazz Night

Cofnod rhif 325 - Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) 2016 Cyngor Sir Caerfyrddin
Penderfynwyd nodi cynnig y Cyngor Sir i ymestyn y gorchymyn uchod am dair blynedd arall.

Cofnod rhif 326- ASE Jill Evans – Dympio Gwastraff Niwclear yng Nghymru
Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Jill Evans yn gofyn i'r Cyngor I dderbyn y cynnig na fydd y gymuned yn gwirfoddoli i roi cartref i dymp gwastraff niwclear tanddaearol. **Penderfynwyd,** yn unfrydol, i gymeradwyo'r cynnig uchod.

Cofnod rhif 327- Hawlio Llwybr Ceffyl cofrestredig ger Llwynteg, Llannon
Roedd y Cynghorydd D Jones wedi datgan buddiant yn y mater hwn, ac nid oedd wedi cymryd unrhyw rhan yn y drafodaeth a fu ynghylch yr eitem.

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin parthed â chais i gofrestru Llwybr Ceffyl Cyhoeddus yn Llannon. Roedd Aelodau'r Cyngor o'r farn y byddai cofrestru llwybr ceffyl ar hyd y llwybr arfaethedig yn anaddas, a gofynnwyd bod y Clerc yn ymateb i'r Cyngor Sir i wrthwynebu'r cais hwn.

Cofnod rhif 328 - Mrs M Squires – Cais i osod mainc goffa yn y Fynwent
Roedd y Cyngor wedi derbyn cais oddiwrth Mrs Squires yn gofyn caniatâd i osod mainc goffa ym Mynwent y Mynydd Mawr er cof am ei diweddar ŵr, Morton Squires.
Penderfynwyd cytuno bod y fainc yn cael ei gosod ym Mynwent y Mynydd Mawr.

Cofnod rhif 329 – Dyluniad Carreg Fedd – Jyrsi Pêl-droed
Roedd y Cyngor wedi derbyn cais am awdurdod i osod carreg fedd siâp jyrsi pêl-droed ym mynwent y Mynydd Mawr. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r garreg fedd fatsio'r canllawiau dylunio presennol, a gwnaethpwyd cais bod y Cadeirydd yn cwrdd â'r saer maen i astudio llun mwy manwl o'r dyluniad cyn cymeradwyo'r fath ddyluniad.

Cofnod rhif 330 – Neuadd y Tymbl
a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded
Penderfynwyd nodi bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.
Rheswm – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 2003)

Mawrth 19eg	Noson Gymdeithasol
Mawrth 22ain	Canu Gwlad
Ebrill 2il	Noson Gymdeithasol
Ebrill 4ydd	Noson Cyri a Chwis
Ebrill 6ed	Parti
Mawrth 13eg	Noson Jazz

Minute no. 331 – Councillor Reports

- Councillor D Jones reported that the bus shelter at Bryngwili needs to have brambles removed which are growing through the back of the shelter.
- Cllr N Holman reported that there is a problem with motorists parking on zigzag lines at pedestrian crossings.
- Cllr L Davies reported that the wrestling posters remain in the Cross Hands area and should have been removed by the organisers of the event. Request made that Caretakers need to litter pick on a weekly basis in the Cemetery car park area. The Pride in your Patch competition is to be judged on the 13th July. An enquiry was made as to why the gate at the entrance to High Street park area near the shoe shop is constantly closed. Cllr D Jones agreed to make a request to the County Council to establish if the gate can be opened.
- Cllr L Williams reported that there was a litter pick on Tuesday which filled 13 bags. It was stated that the signs in the hall are not standardised and all need to be bilingual. A request was made that there is a need to put footpaths on future agenda with a view to identifying a group of people who are willing to walk the paths on behalf of the Council. There is a fault in the sign on the front of the hall - the "U" has dropped off one of the supports.

Meeting ended at 9.30pm

Signed ..... Date .....
Chairman

Cofnod rhif 331 – Adroddiadau'r Cynghorwyr

- Dywedodd y Cynghorydd D Jones bod angen torri'r llwyni mieri ger y gysgodfan fws ym Mryngwili gan eu bod yn tyfu trwy gefn y gysgodfan.
- Dywedodd y Cynghorydd N Holman bod problem gyda modurwyr yn parcio'u ceir ar linellau igam ogam ar groesfannau i gerddwyr.
- Dywedodd y Cynghorydd L Davies bod y posteri reslo dal i'w gweld yn ardal Cross Hands, ac y dylai'r trefnyddion fod wedi'u tynnu i ffwrdd. Gwnaethpwyd cais bod y Gofalwyr yn casglu sbwriel yn wythnosol yn ardal maes parcio'r Fynwent. Bydd y gystadleuaeth Cymoni Cymuned yn cael ei feirniadu ar Orffennaf 13eg. Gofynnwyd pam mae'r gât wrth y mynediad i'r parc ger y siop esgidiau yn y Stryd Fawr wastad wedi'i gloi. Cytunodd y Cynghorydd D Jones i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir i weld os oes modd agor y gât.
- Dywedodd y Cynghorydd L Williams y cynhaliwyd sesiwn casglu sbwriel ar ddydd Mawrth, a bod 13 llond cwdyn o sbwriel wedi'i gasglu. Dywedwyd nad yw'r arwyddion yn y neuadd wedi'u safoni, ac mae angen i bob un ohonynt fod yn ddwyieithog. Gwnaethpwyd cais bod llwybrau troed yn cael eu cynnwys ar agenda yn y dyfodol, gyda'r bwriad o adnabod grŵp o bobl a fydd yn fodlon cerdded y llwybrau hyn ar ran y Cyngor. Mae nam ar yr arwydd ar flaen y neuadd – mae'r llythyren "U" wedi cwympo oddiar un o'r cynheiliaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh

Llofnod ..... **Dyddiad .....**

Cadeirydd